Addasiadau CBAC i gymwysterau TGAU, UG a Safon Uwch yn haf 2022

Canlyniadau'r ymgynghoriad â dysgwyr, rhieni a gofalwyr

3 Medi 2021

@CBAC_WJEC
WWW.CBAC.CO.UK
@CBACWJEC

Cynnwys

Tudalen

Newidiadau i asesiadau TGAU, UG a Safon Uwch yn 2022 2

Beth yw'r egwyddorion y mae'n rhaid i CBAC eu dilyn wrth addasu cymwysterau? 2

Pa dybiaethau gafodd eu gwneud gennym? 3

Beth yw bwriad yr addasiadau ar gyfer 2022? 3

Canlyniadau'r ymgynghoriad 5

Crynodeb o ganlyniadau'r arolwg TGAU 6

Crynodeb o ganlyniadau'r arolwg UG 11

Crynodeb o ganlyniadau'r arolwg Safon Uwch 14

Atodiad A crynodeb o addasiadau TGAU 18

Atodiad B crynodeb o addasiadau UG 22

Atodiad C crynodeb o addasiadau Safon Uwch 24

Newidiadau i asesiadau TGAU, UG a Safon Uwch yn 2022

Deallwn fod y sefyllfa bresennol wedi amharu'n sylweddol ar addysgu a dysgu y dysgwyr drwy gydol 2020 a 2021.

Penderfynodd Cymwysterau Cymru, y rheoleiddiwr arholiadau, y bydd y TGAU, UG a Safon Uwch yn cael eu haddasu i'r dysgwyr hynny sy'n sefyll y cymwysterau hyn yn haf 2022. Felly, cyhoeddodd CBAC ddau ymgynghoriad yn ystod tymor yr haf 2021: un i ddysgwyr rhieni a gofalwyr, ac un i ysgolion a cholegau. Yr oedd y ddau ymgynghoriad yn holi barn am newidiadau arfaethedig i'r ffordd yr asesir ein cymwysterau TGAU, UG a Safon Uwch yn haf 2022. Mae'r llyfryn hwn yn crynhoi'r ymatebion a gafwyd gan ddysgwyr, rhieni a gofalwyr.

Ni chafodd ein cymwysterau Eduqas mewn Astudiaethau Ffilm, Cymdeithaseg, Daeareg, Electroneg a Lladin eu cynnwys yn yr ymgynghoriadau hyn. Ofqual sy'n achredu'r cymwysterau hyn, yn hytrach na Cymwysterau Cymru, ac mae Ofqual wedi cynnal ymgynghoriad ar wahân am y cymwysterau hynny.

Cyfyngwyd ein hymgynghoriadau i addasiad arfaethedig asesiadau yn 2022. Nid oedd ymgynghori am safonau graddio cymwysterau yn rhan o'n cylch gorchwyl. Bydd gwybodaeth ar gael maes o law gan Cymwysterau Cymru, ynghyd â rheoleiddwyr eraill y DU, ynghylch y thema hon.

Beth yw'r egwyddorion y mae'n rhaid i CBAC eu dilyn wrth addasu cymwysterau?

Amlinellodd Cymwysterau Cymru saith o egwyddorion y mae'n rhaid i CBAC eu dilyn wrth wneud newidiadau i asesiadau TGAU, UG a Safon Uwch. Rhaid i CBAC geisio:

1. sicrhau nad yw dysgwyr yn cael mantais nac yn cael anfantais o gymharu â'u cyfoedion mewn awdurdodaethau eraill
2. sicrhau bod pob cymhwyster yn arwydd dibynadwy o'r wybodaeth, y sgiliau a'r ddealltwriaeth a bennir yn y cymhwyster yn dilyn unrhyw addasiadau i asesiadau
3. sicrhau nad yw cynnwys cymwysterau, yn gyffredinol, yn cael ei leihau; fodd bynnag, gellir ailstrwythuro cynnwys fel y gellir ei symleiddio'n rhesymol, megis mewn perthynas ag unedau dewisol.
4. sicrhau bod hydrinedd asesiad yn cael ei gynyddu i'r eithaf, lle bydd hyn yn caniatáu cynnydd yn yr amser addysgu er mwyn lleihau'r effaith ar ganlyniadau
5. cynnal safonau, cyn belled ag y bo modd, o fewn yr un cymhwyster yn unol â blynyddoedd blaenorol
6. cynnal safonau, cyn belled ag y bo modd, ar draws cymwysterau tebyg sydd ar gael gan CBAC a chan gyrff dyfarnu eraill
7. sicrhau bod hyblygrwydd wrth ddarparu asesiadau yn cael ei gynyddu i'r eithaf er mwyn lleihau effaith aflonyddwch, salwch neu gwarantin, gan gynnwys cyfyngiadau symud ar lefel leol.

Pa dybiaethau gafodd eu gwneud gennym[1]?

1. Bydd pob dysgwr wedi colli rhai cyfleoedd i ddatblygu sgiliau a gwybodaeth hanfodol, mewn gwaith ymarferol yn arbennig. Ni allwn gymryd yn ganiataol felly y bydd yr un ehangder sgiliau a gwybodaeth gan y dysgwyr hynny sy'n sefyll eu hasesiadau yn haf 2022 ag y byddai disgwyl iddynt eu cael fel arfer.

2. Bydd ysgolion a cholegau ar agor am y cyfan neu'r rhan fwyaf o flwyddyn academaidd 2021-2022.

3. Lle bynnag y bo'n bosibl, dylai rhai addasiadau fod yn eu lle ar gyfer asesiadau 2022 ym mhob cymhwyster.

4. Mae'n debygol y bydd arholiadau yn digwydd yn ôl yr arfer yn 2022 gan ddefnyddio cynnwys wedi'i addasu ac asesiadau wedi'u haddasu hefyd lle y bo'n briodol gwneud hynny.

5. Mae'n debygol y bydd arholiadau yn digwydd yn ôl yr arfer yn 2023 heb unrhyw addasiadau.

Beth yw bwriad yr addasiadau ar gyfer 2022?

Bwriad yr addasiadau i'r cymwysterau TGAU, UG a Safon Uwch yw lliniaru effaith yr amharu a fu ar addysgu a dysgu drwy gydol 2020 a 2021.

Nod yr addasiadau i'r cymwysterau TGAU yw symleiddio'r cynnwys i'w asesu yn y TGAU yn 2022. Dewiswyd yr addasiadau hyn yn ofalus i sicrhau na fydd y dysgwyr hynny sy'n symud ymlaen i astudio cymwysterau UG a Safon Uwch o fis Medi 2022 dan anfantais os ydynt yn sefyll asesiadau UG yn 2023 ac asesiadau Safon Uwch yn 2024 sydd heb unrhyw addasiadau.

Nod yr addasiadau i'r cymwysterau UG yw symleiddio'r cynnwys i'w asesu yn yr UG yn 2022. Dewiswyd yr addasiadau hyn yn ofalus i wneud yn siŵr na fydd y dysgwyr hynny sy'n symud ymlaen i astudio unedau Safon Uwch o fis Medi 2022 dan anfantais os ydynt yn sefyll asesiadau U2 yn 2023 sydd heb unrhyw addasiadau.

Nid asesir dysgwyr Safon Uwch ar unedau UG unrhyw bynciau yn 2022. Bydd y radd Safon Uwch yn seiliedig ar ganlyniadau'r unedau U2 yn unig. Mae hyn yn golygu bod yr asesiad 40% yn llai ar draws y cymhwyster Safon Uwch llawn i ddysgwyr sy'n ardystio yn 2022. Mae'n bwysig nodi, fodd bynnag, er nad asesir dysgwyr Safon Uwch ar unedau UG yn 2022, ein bod yn cynnig yr addasiad hwn gan y bydd cynnwys y pwnc ar gyfer UG ac U2 yn y fanyleb addasedig wedi'i addysgu i'r dysgwyr hynny.

Bwriad yr addasiadau i'r cymwysterau Safon Uwch yw symleiddio'r cynnwys i'w asesu yn yr unedau U2 yn 2022, gan gadw'r asesiad llawn o 60% yn yr unedau hynny, lle bynnag y bo'n bosibl gwneud hynny. Mae hyn yn digwydd er mwyn sicrhau bod y Safon Uwch a ddyfernir i ddysgwyr yng Nghymru yn 2022 yn ddilys, dibynadwy ac yn gallu cael eu cymharu â'r Safon Uwch a ddyfernir i ddysgwyr yn Lloegr a Gogledd Iwerddon.

Ystyriwyd pob cymhwyster yn unigol er mwyn gallu llunio addasiad sy'n briodol i'r pwnc. Yn rhan o hyn ystyriwyd yn ofalus yr amrediad o nodweddion dylunio sy'n perthyn i'r cymwysterau TGAU a TAG a gymeradwywyd i'w cyflwyno yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys p'un a yw'r cymhwyster yn cynnwys elfen o asesu di-arholiad.

[1] Tybiaethau a wnaed ar 09 Mehefin 2021. Adolygir hyn o dro i dro neu os bydd unrhyw wybodaeth newydd ar gael.

Gwneud addasiadau cymharol ar draws y gyfres o gymwysterau fu ein nod. Nid yw'n bosibl gwneud yr addasiadau yr un fath, fodd bynnag, gan fod nodweddion dylunio'r TGAU a TAG a gymeradwywyd i'w cyflwyno yng Nghymru yn amrywio, o ran cynnwys Asesiad Di-arholiad mewn cymhwyster neu asesiad drwy arholiad yn unig. Newidyn sylweddol arall yw p'un a yw manyleb yn un sy'n seiliedig ar wybodaeth neu'n seiliedig ar sgiliau.

O gyfuno'r ddau, lluniwyd addasiadau pob cymhwyster i adlewyrchu pob un o saith Egwyddor Cymwysterau Cymru. Maent yn cynnig dulliau lliniaru sy'n cymharu'n fras ar draws yr holl gymwysterau TGAU a TAG er nad ydynt yn unfath.

Canlyniadau'r ymgynghoriad

Ymgynghorodd CBAC â dysgwyr, rhieni a gofalwyr rhwng 09 a 23 Mehefin 2021 am addasiadau arfaethedig i'n cymwysterau TGAU, UG a Safon Uwch wedi'u cymeradwyo ar gyfer haf 2022.

Gofynnwyd cyfres debyg o gwestiynau ynghylch yr addasiadau arfaethedig ym mhob un o'r arolygon TGAU, UG a Safon Uwch. Mae'r cwestiynau hyn i'w gweld yn y tabl isod.

TGAU

Gofynnwyd i rieni, gofalwyr a dysgwyr i ba raddau roeddent yn cytuno â hyn:
• dylid addasu pob TGAU ar gyfer 2022, nid y pynciau hynny y mae bron pob dysgwr yn eu sefyll, fel y pynciau craidd?
• lle mae Asesu Di-arholiad mewn cymhwyster y dylem addasu hyn, i helpu dysgwyr i ddilyn canllawiau ymbellhau cymdeithasol wrth ddefnyddio cyfarpar?
• bydd y cynigion yn helpu i wneud yn siŵr bod amser ar gael i ddysgwyr feithrin sgiliau a gwybodaeth hanfodol nad ydynt efallai wedi gallu eu meithrin wrth ddysgu o bell?
• bydd yr addasiadau arfaethedig yn dal i ganiatáu i ddysgwyr symud ymlaen i'r UG a Safon Uwch os ydynt yn dymuno gwneud hynny?

UG

Gofynnwyd i rieni, gofalwyr a dysgwyr i ba raddau roeddent yn cytuno â hyn:
• lle mae Asesu Di-arholiad mewn cymhwyster y dylem addasu hyn, i helpu dysgwyr i ddilyn canllawiau ymbellhau cymdeithasol wrth ddefnyddio cyfarpar?
• bydd y cynigion yn helpu i wneud yn siŵr bod amser ar gael i ddysgwyr feithrin sgiliau a gwybodaeth hanfodol nad ydynt efallai wedi gallu eu meithrin wrth ddysgu o bell?
• bydd yr addasiadau arfaethedig yn dal i ganiatáu i ddysgwyr symud ymlaen i'r Safon Uwch os ydynt yn dymuno gwneud hynny?

Safon Uwch

Gofynnwyd i rieni, gofalwyr a dysgwyr i ba raddau roeddent yn cytuno â hyn:
• lle mae Asesu Di-arholiad mewn cymhwyster y dylem addasu hyn, i helpu dysgwyr i ddilyn canllawiau ymbellhau cymdeithasol wrth ddefnyddio cyfarpar?
• bydd y cynigion yn helpu i wneud yn siŵr bod amser ar gael i ddysgwyr feithrin sgiliau a gwybodaeth hanfodol nad ydynt efallai wedi gallu eu meithrin wrth ddysgu o bell?
• bydd yr addasiadau arfaethedig yn dal i ganiatáu i ddysgwyr symud ymlaen i Addysg Uwch os ydynt yn dymuno gwneud hynny?

Yn olaf, ym mhob arolwg, cafwyd cyfle i ysgrifennu sylwadau am ein cynigion.

Derbyniwyd tua 950 o ymatebion i gyd ac rydym yn ddiolchgar iawn i bob dysgwr, rhiant a gofalwr a wnaeth ymateb i'r ymgynghoriad hwn. Rydym wedi dadansoddi i ba raddau yr oeddech chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r gosodiadau ym mhob un o gwestiynau'r ymgynghoriad ac wedi darllen pob un o'r sylwadau.

I ddilyn, mae crynodebau o'r ymatebion i'n harolygon TGAU, UG a Safon Uwch.

TGAU

Crynodeb o ganlyniadau'r arolwg

Yn y tablau isod rydym yn crynhoi'r ymatebion gan (i) dysgwyr; (ii) rhieni a gofalwyr, ac rydym hefyd yn crynhoi'r ymatebion cyffredinol gan bawb wnaeth ymateb i'r ymgynghoriad TGAU. Diolch i bawb ohonoch wnaeth gymryd rhan.

Ym mhob tabl, mae 'N' yn dangos y nifer wnaeth ymateb i bob cwestiwn ac mae'r canrannau wedi'u talgrynnu yn rhifau cyfan.

Dysgwyr

Derbyniwyd 277 o ymatebion gan ddysgwyr i'r arolwg TGAU.

Cwestiwn	N	**Canrannau**				
I ba raddau rydych chi'n cytuno:		Cytuno'n gryf	Tueddu i gytuno	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	Tueddu i anghytuno	Anghytuno'n Gryf
dylid addasu pob TGAU ar gyfer 2022, nid y pynciau hynny y mae bron pob dysgwr yn eu sefyll, fel y pynciau craidd?	**265**	70%	14%	10%	3%	3%
lle mae Asesu Di-arholiad mewn cymhwyster y dylem addasu hyn, i helpu dysgwyr i ddilyn canllawiau ymbellhau cymdeithasol wrth ddefnyddio cyfarpar?	**257**	45%	32%	17%	3%	3%
bydd y cynigion yn helpu i wneud yn siŵr bod amser ar gael i ddysgwyr feithrin sgiliau a gwybodaeth hanfodol nad ydynt efallai wedi gallu eu meithrin wrth ddysgu o bell?	**249**	34%	32%	17%	10%	7%
bydd yr addasiadau arfaethedig yn dal i ganiatáu i ddysgwyr symud ymlaen i'r UG a Safon Uwch os ydynt yn dymuno gwneud hynny?	**241**	36%	22%	25%	11%	6%

Rhieni a gofalwyr

Derbyniwyd 443 o ymatebion gan rieni a gofalwyr i'r arolwg TGAU.

Cwestiwn	N	**Canrannau**				
I ba raddau rydych chi'n cytuno bod:		Cytuno'n gryf	Tueddu i gytuno	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	Tueddu i anghytuno	Anghytuno'n Gryf
dylid addasu pob TGAU ar gyfer 2022, nid y pynciau hynny y mae bron pob dysgwr yn eu sefyll, fel y pynciau craidd?	**435**	86%	10%	3%	1%	1%
lle mae Asesu Di-arholiad mewn cymhwyster y dylem addasu hyn, i helpu dysgwyr i ddilyn canllawiau ymbellhau cymdeithasol wrth ddefnyddio cyfarpar?	**427**	65%	21%	9%	4%	1%
bydd y cynigion yn helpu i wneud yn siŵr bod amser ar gael i ddysgwyr feithrin sgiliau a gwybodaeth hanfodol nad ydynt efallai wedi gallu eu meithrin wrth ddysgu o bell?	**408**	52%	29%	10%	7%	2%
bydd yr addasiadau arfaethedig yn dal i ganiatáu i ddysgwyr symud ymlaen i'r UG a Safon Uwch os ydynt yn dymuno gwneud hynny?	**400**	43%	36%	15%	5%	2%

Pob ymateb

Derbyniwyd cyfanswm o 720 o ymatebion gan ddysgwyr, rhieni a gofalwyr i'r arolwg TGAU.

Cwestiwn	N	**Canrannau**				
I ba raddau rydych chi'n cytuno bod:		Cytuno'n gryf	Tueddu i gytuno	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	Tueddu i anghytuno	Anghytuno'n Gryf
dylid addasu pob TGAU ar gyfer 2022, nid y pynciau hynny y mae bron pob dysgwr yn eu sefyll, fel y pynciau craidd?	**700**	80%	11%	5%	2%	2%
lle mae Asesu Di-arholiad mewn cymhwyster y dylem addasu hyn, i helpu dysgwyr i ddilyn canllawiau ymbellhau cymdeithasol wrth ddefnyddio cyfarpar?	**684**	57%	25%	12%	4%	2%
bydd y cynigion yn helpu i wneud yn siŵr bod amser ar gael i ddysgwyr feithrin sgiliau a gwybodaeth hanfodol nad ydynt efallai wedi gallu eu meithrin wrth ddysgu o bell?	**657**	45%	30%	12%	8%	4%
bydd yr addasiadau arfaethedig yn dal i ganiatáu i ddysgwyr symud ymlaen i'r UG a Safon Uwch os ydynt yn dymuno gwneud hynny?	**641**	40%	30%	19%	7%	3%

Mae'r tablau yn dangos bod lefel uchel o gytundeb ar y cyfan â'r pedwar cwestiwn a ofynnwyd am yr addasiadau arfaethedig i gymwysterau TGAU.

Cytunodd cyfanswm o 91 y cant y dylid addasu pob TGAU; cytunodd 82 y cant y dylid addasu'r Asesiad Di-arholiad; cytunodd 75 y cant y bydd y cynigion hyn yn sicrhau bod amser ar gael i feithrin sgiliau hanfodol, a chytunodd 70 y cant y byddai'r cynigion yn caniatáu i ddysgwyr symud ymlaen i UG a Safon Uwch.

Atebodd rhwng 5 ac 19 y cant eu bod *'ddim yn cytuno nac yn anghytuno'* â'r cwestiynau. Nifer isel wnaeth anghytuno ar y cyfan sef pedwar y cant; chwech y cant; 12 y cant a 10 y cant â'r cwestiwn cyntaf a'r ail, trydydd a'r pedwerydd cwestiwn yn ôl eu trefn.

Er bod mwyafrif clir o'r dysgwyr yn cytuno â'r pedwar cwestiwn a ofynnwyd (yn amrywio o 84 y cant i 58 y cant), cafwyd lefel uwch o gytundeb oddi wrth y rhieni a gofalwyr (yn amrywio o 96 y cant i 79 y cant).

Sylwadau a dderbyniwyd

O'r 720 o ymatebion a gafwyd i'r arolwg TGAU, darparodd 249 o'r rhain sylwadau. Cafodd yr ymatebion hyn eu grwpio'n 11 categori eang fel sydd i'w gweld yn y tabl isod.

Mae'r colofnau 'Nifer' yn dangos nifer y dysgwyr (D), rhieni/gofalwyr (Rh/G) ac ymatebwyr heb eu diffinio (?) wnaeth gyflwyno sylw ym mhob categori. Lle cafwyd mwy nag un prif bwynt mewn sylw, lle y bo'n briodol gwneud hynny cawsant eu cyfrif mewn mwy nag un categori.

Ffocws y sylw	Nifer			
	D	Rh/G	?	Cyfanswm
Collwyd llawer o amser addysgu a dysgu wyneb yn wyneb	22	70	0	92
Dylid addasu arholiadau ar gyfer 2022	16	43	1	60
Byddai asesiad canolfannau yn well nag arholiadau	25	33	1	59
Effaith ar/pwysigrwydd llesiant dysgwyr	10	31	0	41
Dilyniant i gymwysterau/astudiaethau eraill	0	15	0	15
Dylai'r addasiadau fynd ymhellach	4	8	1	13
Dylai'r asesu fod ar waith blwyddyn 11 yn unig	8	1	0	9
Effaith yr amrywio ar draws canolfannau/mae angen i bopeth fod yn gyfartal	0	9	0	9
Pwysigrwydd cynnal arholiadau yn 2022	0	9	0	9
Pryder na fydd gwaith sydd wedi'i wneud yn barod yn cael ei gyfrif yn 2022	0	8	0	8
Sylwadau eraill	9	30	0	39

Darllenwyd pob sylw gennym. Yn sicr, rydym yn deall y materion a godwyd mewn perthynas â'r golled o ran amser addysgu a dysgu a phwysigrwydd addasu asesiadau yn 2022 i ystyried hyn. Gwerthfawrogwn yr hoffai rhai o'r ymatebwyr i ni fynd ymhellach yn nhermau'r addasiadau arfaethedig. Rhaid i ni fodd bynnag gydbwyso hyn ag Egwyddorion Cymwysterau Cymru a'r angen i sicrhau nad yw'r dysgwyr hynny sy'n sefyll eu harholiadau yn 2022 dan anfantais yn nhermau dilyniant yn 2023 a thu hwnt.
Deallwn hefyd pam mae rhai ymatebwyr wedi dweud y byddai'n well ganddynt weld rhyw fath o asesiad canolfannau yn 2022 yn lle arholiadau. Credwn ei bod er lles pob dysgwr i gynnal arholiadau, ar sail manylebau addasedig, yn 2022. Fodd bynnag, mater o bolisi'r llywodraeth yn hytrach na dewis CBAC yw'r penderfyniad hwn[2].

Mynegwyd safbwyntiau gwahanol iawn gan rai ymatebwyr ynghylch materion penodol. Er enghraifft, mynegodd nifer o rieni/gofalwyr bryder bod yr addasiadau arfaethedig yn golygu na fyddai gwaith a gwblhawyd eisoes gan eu plant ym mlwyddyn 10 yn cael ei asesu yn 2022. O gymharu, gwnaeth nifer tebyg o ddysgwyr y sylw y dylid asesu'r TGAU yn 2022 ar waith blwyddyn 11 yn unig oherwydd yr amharu a fu ym mlwyddyn 10. Mae'r un enghraifft hon yn dangos pa mor amrywiol oedd y safbwyntiau a fynegwyd yn y sylwadau a hefyd pa mor anodd ydyw i gynnig addasiadau sy'n gofyn am gefnogaeth gyffredinol, yn enwedig gan

[2]Credwn y bydd Cymwysterau Cymru yn cyhoeddi unrhyw drefniadau wrth gefn yn ystod tymor yr hydref 2021.

fod yr ysgol neu'r coleg ei hun (sy'n gywir) yn penderfynu ym mha drefn i addysgu yn hytrach na CBAC.

Penderfyniadau

Gan ystyried yr ymatebion a dderbyniwyd i'r ddau ymgynghoriad a gynhaliwyd yn ystod tymor yr haf, (h.y. yr arolwg o ddysgwyr, rhieni a gofalwyr, a'r arolwg o'r ysgolion a cholegau) penderfynwyd rhoi'r addasiadau TGAU a gynigiwyd ar waith, ar eu ffurf wreiddiol yn bennaf neu, i nifer bach o bynciau, gyda mân newidiadau sy'n adlewyrchu'r adborth a gafwyd. Mae Atodiad A y llyfryn hwn yn crynhoi'r newidiadau i'n cymwysterau CBAC TGAU ar gyfer 2022. Bydd mwy o fanylion i bob pwnc wedi'u cynnwys yn y llyfrynnau addasiadau TGAU a TAG sydd i'w cyhoeddi ar wefan CBAC erbyn 10 Medi.

UG

Crynodeb o ganlyniadau'r arolwg

Yn y tablau isod rydym yn crynhoi'r ymatebion gan (i) dysgwyr; (ii) rhieni a gofalwyr, ac yn crynhoi hefyd yr ymatebion cyffredinol a dderbyniwyd gan bawb wnaeth ymateb i'r ymgynghoriad UG. Diolch i bawb ohonoch wnaeth gymryd rhan.

Ym mhob tabl, mae 'N' yn dangos y nifer wnaeth ymateb i bob cwestiwn ac mae'r canrannau wedi'u talgrynnu yn rhifau cyfan.

Dysgwyr

Derbyniwyd 52 o ymatebion gan ddysgwyr i'r arolwg UG.

Cwestiwn	N	**Canrannau**				
I ba raddau rydych chi'n cytuno bod:		Cytuno'n gryf	Tueddu i gytuno	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	Tueddu i anghytuno	Anghytuno'n Gryf
lle mae Asesu Di-arholiad mewn cymhwyster y dylem addasu hyn, i helpu dysgwyr i ddilyn canllawiau ymbellhau cymdeithasol wrth ddefnyddio cyfarpar?	**40**	32%	38%	18%	5%	8%
bydd y cynigion yn helpu i wneud yn siŵr bod amser ar gael i ddysgwyr feithrin sgiliau a gwybodaeth hanfodol nad ydynt efallai wedi gallu eu meithrin wrth ddysgu o bell?	**37**	30%	30%	8%	19%	14%
bydd yr addasiadau arfaethedig yn dal i ganiatáu i ddysgwyr symud ymlaen i'r Safon Uwch os ydynt yn dymuno gwneud hynny?	**34**	29%	41%	6%	18%	6%

Rhieni a gofalwyr

Derbyniwyd 30 o ymatebion gan rieni a gofalwyr i'r arolwg UG.

Cwestiwn	N	**Canrannau**				
I ba raddau rydych chi'n cytuno bod:		Cytuno'n gryf	Tueddu i gytuno	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	Tueddu i anghytuno	Anghytuno'n Gryf
lle mae Asesu Di-arholiad mewn cymhwyster y dylem addasu hyn, i helpu dysgwyr i ddilyn canllawiau ymbellhau cymdeithasol wrth ddefnyddio cyfarpar?	**29**	59%	14%	3%	14%	10%
bydd y cynigion yn helpu i wneud yn siŵr bod amser ar gael i ddysgwyr feithrin sgiliau a gwybodaeth hanfodol nad ydynt efallai wedi gallu eu meithrin wrth ddysgu o bell?	**29**	17%	45%	14%	17%	7%
bydd yr addasiadau arfaethedig yn dal i ganiatáu i ddysgwyr symud ymlaen i'r Safon Uwch os ydynt yn dymuno gwneud hynny?	**28**	25%	36%	25%	11%	4%

Pob ymateb

Derbyniwyd cyfanswm o 82 o ymatebion gan ddysgwyr, rhieni a gofalwyr i'r arolwg UG.

Cwestiwn	N	**Canrannau**				
I ba raddau rydych chi'n cytuno bod:		Cytuno'n gryf	Tueddu i gytuno	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	Tueddu i anghytuno	Anghytuno'n Gryf
lle mae Asesu Di-arholiad mewn cymhwyster y dylem addasu hyn, i helpu dysgwyr i ddilyn canllawiau ymbellhau cymdeithasol wrth ddefnyddio cyfarpar?	**69**	43%	28%	12%	9%	9%
bydd y cynigion yn helpu i wneud yn siŵr bod amser ar gael i ddysgwyr feithrin sgiliau a gwybodaeth hanfodol nad ydynt efallai wedi gallu eu meithrin wrth ddysgu o bell?	**66**	24%	36%	11%	18%	11%
bydd yr addasiadau arfaethedig yn dal i ganiatáu i ddysgwyr symud ymlaen i'r Safon Uwch os ydynt yn dymuno gwneud hynny?	**62**	27%	39%	15%	15%	5%

Ar y cyfan, mae'r tablau'n dangos bod lefel uchel o gytundeb â'r tri chwestiwn a ofynnwyd uchod am yr addasiadau arfaethedig i gymwysterau UG.

Cytunodd cyfanswm o 71 y cant y dylid addasu'r Asesiad Di-arholiad; cytunodd 60 y cant y bydd y cynigion yn ffordd o helpu dysgwyr i gael yr amser i ddatblygu sgiliau hanfodol, a chytunodd 66 y cant y byddai'r cynigion yn caniatáu i ddysgwyr symud ymlaen i Safon Uwch.

Atebodd rhwng 11 a 15 y cant o'r ymatebwyr eu bod *'ddim yn cytuno nac yn anghytuno'* i'r cwestiynau. Cymharol isel oedd lefel yr anghytuno ar y cyfan sef 18 y cant, 29 y cant a 20 y cant i'r cwestiwn cyntaf a'r ail a'r trydydd cwestiwn yn ôl eu trefn.

Ar y cyfan, roedd lefel y cytuno yn debyg rhwng dysgwyr a rhieni/gofalwyr. Roedd rhieni/gofalwyr dri a dau bwynt canrannol yn uwch ar y ddau gwestiwn cyntaf a dysgwyr naw pwynt canrannol yn uwch ar y trydydd cwestiwn.

Sylwadau a dderbyniwyd

O'r 82 o ymatebion a gafwyd i'r arolwg UG, cymrodd 20 ohonynt y cyfle i gynnig sylwadau. Cafodd yr ymatebion hyn eu grwpio'n 10 categori eang fel sydd i'w gweld yn y tabl isod. Mae'r colofnau 'Nifer' yn dangos nifer y dysgwyr (D) a rhieni/gofalwyr (Rh/G) wnaeth gynnig sylw ym mhob categori. Lle cafwyd mwy nag un prif bwynt mewn sylw, lle y bo'n briodol gwneud hynny cawsant eu cyfrif mewn mwy nag un categori.

Ffocws y sylw	**Rhif**		
	D	**Rh/G**	**Cyfanswm**
Diffyg profiad arholiad	3	2	5
Byddai asesiad canolfannau yn well nag arholiadau	4	0	4
Dylai'r addasiadau fynd ymhellach	2	1	3
Dilyniant i gymwysterau/astudiaethau eraill	0	2	2
Dylid addasu arholiadau ar gyfer 2022	1	1	2
Effaith ar/pwysigrwydd llesiant dysgwyr	1	1	2
Collwyd llawer o amser addysgu a dysgu wyneb yn wyneb	0	1	1
Effaith yr amrywio ar draws canolfannau/mae angen i bopeth fod yn gyfartal	0	1	1
Pwysigrwydd cynnal arholiadau yn 2022	1	0	1
Pwysigrwydd datblygu sgiliau ymarferol	0	1	1

Darllenwyd pob un o'r sylwadau gennym. Er nad yw'n briodol gwneud sylw manwl am y nifer hwn o ymatebion oedd yn amrywio cymaint o ran ffocws, diddorol yw nodi rhai tebygrwyddau â'r ymatebion i'r arolygon TGAU a Safon Uwch. Thema oedd yn gyffredin yn y sampl bach hwn oedd nodi na fydd dysgwyr UG yn 2022 wedi cael y profiad o sefyll arholiadau TGAU yn 2021.

Penderfyniadau

Gan ystyried yr ymatebion a dderbyniwyd i'r ddau ymgynghoriad a gynhaliwyd yn ystod tymor yr haf, (h.y. yr arolwg o ddysgwyr, rhieni a gofalwyr, a'r arolwg o'r ysgolion a cholegau) penderfynwyd rhoi'r addasiadau UG a gynigiwyd ar waith, ar eu ffurf wreiddiol yn bennaf neu, i nifer bach o bynciau, gyda mân newidiadau sy'n adlewyrchu'r adborth a gafwyd. Mae Atodiad B y llyfryn hwn yn crynhoi'r newidiadau i'n cymwysterau CBAC UG ar gyfer 2022. Bydd mwy o fanylion i bob pwnc wedi'u cynnwys yn y llyfrynnau addasiadau TGAU a TAG sydd i'w cyhoeddi ar wefan CBAC erbyn 10 Medi.

Safon Uwch

Crynodeb o ganlyniadau'r arolwg

Yn y tablau isod rydym yn crynhoi'r ymatebion gan (i) dysgwyr; (ii) rhieni a gofalwyr, ac rydym hefyd yn crynhoi'r ymatebion cyffredinol gan bawb wnaeth ymateb i'r ymgynghoriad Safon Uwch. Diolch i bawb ohonoch wnaeth gymryd rhan.

Ym mhob tabl, mae 'N' yn dangos y nifer wnaeth ymateb i bob cwestiwn ac mae'r canrannau wedi'u talgrynnu yn rhifau cyfan.

Dysgwyr

Derbyniwyd 86 o ymatebion gan ddysgwyr i'r arolwg Safon Uwch.

Cwestiwn	N	**Canrannau**				
I ba raddau rydych chi'n cytuno bod:		Cytuno'n gryf	Tueddu i gytuno	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	Tueddu i anghytuno	Anghytuno'n Gryf
lle mae Asesu Di-arholiad mewn cymhwyster y dylem addasu hyn, i helpu dysgwyr i ddilyn canllawiau ymbellhau cymdeithasol wrth ddefnyddio cyfarpar?	**79**	27%	32%	25%	9%	8%
bydd y cynigion yn helpu i wneud yn siŵr bod amser ar gael i ddysgwyr feithrin sgiliau a gwybodaeth hanfodol nad ydynt efallai wedi gallu eu meithrin wrth ddysgu o bell?	**72**	25%	33%	10%	19%	13%
bydd yr addasiadau arfaethedig yn dal i ganiatáu i ddysgwyr symud ymlaen i Addysg Uwch os ydynt yn dymuno gwneud hynny?	**71**	28%	23%	24%	17%	8%

Rhieni a gofalwyr

Derbyniwyd 62 o ymatebion gan rieni a gofalwyr i'r arolwg Safon Uwch.

Cwestiwn	N	Canrannau				
I ba raddau rydych chi'n cytuno bod:		Cytuno'n gryf	Tueddu i gytuno	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	Tueddu i anghytuno	Anghytuno'n Gryf
lle mae Asesu Di-arholiad mewn cymhwyster y dylem addasu hyn, i helpu dysgwyr i ddilyn canllawiau ymbellhau cymdeithasol wrth ddefnyddio cyfarpar?	**61**	36%	31%	20%	8%	5%
bydd y cynigion yn helpu i wneud yn siŵr bod amser ar gael i ddysgwyr feithrin sgiliau a gwybodaeth hanfodol nad ydynt efallai wedi gallu eu meithrin wrth ddysgu o bell?	**55**	27%	40%	7%	20%	5%
bydd yr addasiadau arfaethedig yn dal i ganiatáu i ddysgwyr symud ymlaen i Addysg Uwch os ydynt yn dymuno gwneud hynny?	**53**	34%	36%	17%	11%	2%

Pob ymateb

Derbyniwyd cyfanswm o 148 o ymatebion gan ddysgwyr, rhieni a gofalwyr i'r arolwg Safon Uwch.

Cwestiwn	N	Canrannau				
I ba raddau rydych chi'n cytuno bod:		Cytuno'n gryf	Tueddu i gytuno	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	Tueddu i anghytuno	Anghytuno'n Gryf
lle mae Asesu Di-arholiad mewn cymhwyster y dylem addasu hyn, i helpu dysgwyr i ddilyn canllawiau ymbellhau cymdeithasol wrth ddefnyddio cyfarpar?	**140**	31%	31%	23%	9%	6%
bydd y cynigion yn helpu i wneud yn siŵr bod amser ar gael i ddysgwyr feithrin sgiliau a gwybodaeth hanfodol nad ydynt efallai wedi gallu eu meithrin wrth ddysgu o bell?	**127**	26%	36%	9%	20%	9%
bydd yr addasiadau arfaethedig yn dal i ganiatáu i ddysgwyr symud ymlaen i Addysg Uwch os ydynt yn dymuno gwneud hynny?	**124**	31%	28%	21%	15%	6%

Ar y cyfan, mae'r tablau'n dangos bod lefel uchel o gytundeb â'r tri chwestiwn a ofynnwyd uchod am yr addasiadau arfaethedig i gymwysterau Safon Uwch.

Cytunodd cyfanswm o 62 y cant y dylid addasu'r Asesiad Di-arholiad; cytunodd 62 y cant y bydd y cynigion hyn yn sicrhau bod amser ar gael i feithrin sgiliau hanfodol, a chytunodd 59 y cant y byddai'r cynigion yn caniatáu i ddysgwyr symud ymlaen i Addysg Uwch.

Atebodd mwy nag un rhan o bump o'r ymatebwyr eu bod *'ddim yn cytuno nac yn anghytuno'* i'r cwestiwn cyntaf a'r trydydd cwestiwn. Cymharol isel oedd lefel yr anghytuno ar y cyfan sef 15 y cant, 29 y cant a 21 y cant i'r cwestiwn cyntaf a'r ail a'r trydydd cwestiwn yn ôl eu trefn.

Er bod mwyafrif y dysgwyr yn cytuno â'r tri chwestiwn a ofynnwyd (yn amrywio o 59 y cant i 51 y cant), gwelwyd mwy o gytundeb yn ymatebion y rhieni a'r gofalwyr (yn amrywio o 70 y cant i 67 y cant).

Sylwadau a dderbyniwyd

O'r 148 ymateb i'r arolwg Safon Uwch, cymerodd 60 y cyfle i gynnig sylwadau. Cafodd yr ymatebion hyn eu grwpio'n 11 categori eang fel sydd i'w gweld yn y tabl isod. Mae'r colofnau 'Nifer' yn dangos nifer y dysgwyr (D) a rhieni/gofalwyr (Rh/G) wnaeth gynnig sylw ym mhob categori. Lle cafwyd mwy nag un prif bwynt mewn sylw, lle y bo'n briodol gwneud hynny cawsant eu cyfrif mewn mwy nag un categori.

Ffocws y sylw	**Rhif**		
	D	**Rh/G**	**Cyfanswm**
Byddai asesiad canolfannau yn well nag arholiadau	15	1	16
Collwyd llawer o amser addysgu a dysgu wyneb yn wyneb	9	4	13
Diffyg profiad arholiad	6	4	10
Dilyniant i gymwysterau/astudiaethau eraill	3	7	10
Dylai'r addasiadau fynd ymhellach	6	2	8
Effaith ar/pwysigrwydd llesiant dysgwyr	5	2	7
Pryder na fyddai gwaith UG yn cael ei gyfrif yn y Safon Uwch yn 2022	3	4	7
Dylid addasu arholiadau ar gyfer 2022	5	0	5
Pwysigrwydd cynnal arholiadau yn 2022	3	2	5
Yr angen am eglurder am drefniadau ar gyfer 2022	2	2	4
Sylwadau eraill	4	3	7

Darllenwyd pob sylw gennym. Yn sicr, rydym yn deall y materion a godwyd mewn perthynas â'r golled o ran amser addysgu a dysgu a phwysigrwydd addasu asesiadau yn 2022 i ystyried hyn.

Yr ymateb mwyaf cyffredin a gafwyd gan ddysgwyr oedd dweud y byddai'n well ganddynt weld rhyw fath o asesiad canolfannau yn lle arholiadau yn 2022. Mewn sawl achos cysylltwyd hyn â sylw am y ffaith nad oeddent wedi cael unrhyw brofiad o arholiadau ar lefel TGAU yn 2020 nac UG yn 2021. Credwn ei bod er lles pob dysgwr i gynnal arholiadau, ar sail manylebau

addasedig, yn 2022. Fodd bynnag, mater o bolisi'r llywodraeth yn hytrach na dewis CBAC yw'r penderfyniad hwn[3].

Gwerthfawrogwn yr hoffai rhai o'r ymatebwyr i ni fynd ymhellach yn nhermau'r addasiadau arfaethedig. Fodd bynnag, mae angen i ni gydbwyso hyn ag Egwyddorion Cymwysterau Cymru a phwysigrwydd sicrhau nad yw dysgwyr dan anfantais o ran dilyniant ar ôl eu Safon Uwch. Crybwyllodd sawl ymatebwr pa mor bwysig oedd rhoi ystyriaeth i ddilyniant.

Diddorol oedd nodi sawl tebygrwydd â'r ymatebion i'r arolygon TGAU ac UG, sy'n awgrymu bod patrwm tebyg i'r materion dan sylw i'r tair lefel yn 2022.

Mae un mater sy'n unigryw i'r Safon Uwch yn ymwneud â'r penderfyniad i ddyfarnu'r cymwysterau hyn ar asesiadau U2 yn unig yn 2022. Nododd nifer bach o ddysgwyr a rhieni/gofalwyr eu bod yn credu y byddai'n decach pe byddai canlyniadau UG 2021 yn cyfrif tuag at Safon Uwch yn 2022. Deallwn eu rhesymau dros fynegi'r farn hon. Fodd bynnag, er mwyn i unedau UG wneud cyfraniad teg a chywir at raddau Safon Uwch mae angen cyfuno marciau unedau UG â marciau unedau U2 i gyflawni canlyniad Safon Uwch. Nid oes gennym farciau am unedau UG o 2021, dim ond graddau'r cymwysterau UG a ddyfarnwyd gan y canolfannau, felly ni allwn weithredu fel hyn yn 2022.

Penderfyniadau

Gan ystyried yr ymatebion a dderbyniwyd i'r ddau ymgynghoriad a gynhaliwyd yn ystod tymor yr haf, (h.y. yr arolwg o ddysgwyr, rhieni a gofalwyr, a'r arolwg o'r ysgolion a cholegau) penderfynwyd rhoi'r addasiadau Safon Uwch a gynigiwyd ar waith, ar eu ffurf wreiddiol yn bennaf neu, i nifer bach o bynciau, gyda mân newidiadau sy'n adlewyrchu'r adborth a gafwyd. Mae Atodiad C yn y llyfryn hwn yn crynhoi'r newidiadau i'n cymwysterau CBAC Safon Uwch ar gyfer 2022. Bydd mwy o fanylion i bob pwnc wedi'u cynnwys yn y llyfrynnau addasiadau TGAU a TAG sydd i'w cyhoeddi ar wefan CBAC erbyn 10 Medi.

[3] Credwn y bydd Cymwysterau Cymru yn cyhoeddi unrhyw drefniadau wrth gefn yn ystod tymor yr hydref 2021.

Atodiad A

Cymwysterau CBAC TGAU

Pwnc	Crynodeb o'r addasiadau ar gyfer Ionawr 2022 a Haf 2022*
Celf a Dylunio	• Dysgwyr yn cynhyrchu Portffolio unigol yn unig (Uned 1) • Tynnu'r Aseiniad Wedi'i Osod yn Allanol (Uned 2)
Busnes	• Llai o gynnwys i'w astudio ar draws y cymhwyster • Llai o asesu (Uned 2). Mae dysgwyr yn ateb cwestiynau ar un astudiaeth achos a chyfres gyfatebol o gwestiynau yn hytrach na'r ddwy arferol
Cyfrifiadureg	• Tynnu'r Asesiad Di-arholiad (Uned 3)
Dylunio a Thechnoleg	• Llai o gynnwys i'w astudio (Uned 1) • Derbyn model/brasfodel yn lle'r cynnyrch gorffenedig ar gyfer yr Asesiad Di-arholiad a thynnu'r gofyniad i 'Werthuso pa mor addas yw'r prototeip i'r pwrpas' (Uned 2)
Drama	• Lleihau hyd y perfformiadau a gwneud y gofynion dylunio yn llai (Uned 1 ac Uned 2) • Rhoi gwybod ymlaen llaw am y darn o'r testun gosod a'r maes testun ar gyfer y cwestiwn gwybodaeth ehangach i'w asesu yn yr arholiad (Uned 3)
Saesneg Iaith	• Tynnu Llafaredd Tasg 2: Ymateb a Rhyngweithio (trafodaeth grŵp) (Uned 1) • Lleihau'r mathau o ysgrifennu sydd eu hangen (Uned 2) • Opsiynau ar gael yn yr asesiadau ysgrifenedig (Uned 3)
Llenyddiaeth Saesneg	• Dysgwyr yn cwblhau Asesiad Di-arholiad (Uned 3) ac yn sefyll un uned arall o'u dewis nhw (naill ai Uned 1 neu Uned 2)
Bwyd a Maeth	• Tynnu Asesiad Di-arholiad Tasg 1 (Uned 2)
Ffrangeg/Almaeneg/Sbaeneg	• Tynnu Siarad Tasg 2 (trafodaeth llun ar gerdyn) (Uned 1) • Rhoi gwybod ymlaen llaw beth yw'r is-is-themâu dan sylw yn yr arholiad gwrando (Uned 2) • Lleihau nifer yr is-is-themâu i'w hasesu (Uned 1 ac Uned 4 yn unig) • Tynnu'r cyfieithiad i Ffrangeg/Almaeneg/Sbaeneg (Uned 4)

*Mae'r fersiynau heb eu haddasu o'n manylebau i'w gweld ar dudalennau'r pynciau ar ein gwefan yma

Pwnc	Crynodeb o'r addasiadau ar gyfer Ionawr 2022 a Haf 2022*
Daearyddiaeth	• Llai o gynnwys i'w astudio yn yr unedau sy'n cael eu harholi (Uned 1 ac Uned 2) • Lleihau gofynion y gwaith maes. Byddai disgwyl i ddysgwyr ymgymryd ag **un** ymholiad gwaith maes yn lle'r ddau arferol. (Uned 3)
Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Gradd Unigol)	• Tynnu Asesiad Di-arholiad Tasg 2 (Uned 2)
Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant (Dwyradd)	• Tynnu asesiad (Uned 1) • Tynnu Asesiad Di-arholiad Tasg 2 (Uned 2) • Lleihau gofynion yr Asesiad Di-arholiad (Uned 4)
Hanes	• Mae dysgwyr yn cwblhau Asesiad Di-arholiad (Uned 4) ac yn sefyll **dwy** uned arall o'u dewis (**naill ai** Uned 1 ac Uned 2, **neu** Uned 1 ac Uned 3 **neu** Uned 2 ac Uned 3)
TGCh (Cwrs Byr)	• Llai o gynnwys i'w astudio (Uned 1)
TGCh (Gradd Unigol)	• Tynnu asesiad (Uned 1)
Mathemateg a Mathemateg- Rhifedd	• Llai o gynnwys i'w astudio ar draws y cymwysterau
Astudio'r Cyfryngau	• Dewis o opsiynau yn yr asesiad (Uned 2) • Lleihau gofynion yr Asesiad Di-arholiad (Uned 3)
Cerddoriaeth	• Lleihau hyd y Perfformiadau Asesiad Di-arholiad. Mae'r ensemble yn rhywbeth dewisol yn hytrach na gorfodol (Uned 1) • Lleihau'r gofynion Cyfansoddi yn yr Asesiad Di-arholiad – un cyfansoddiad yn lle'r ddau arferol, a thynnu'r gwerthusiad (Uned 2)
Addysg Gorfforol	• Lleihau gofynion yr Asesiad Di-arholiad – dau weithgaredd yn lle tri a thynnu'r rhaglen ffitrwydd personol. (Uned 2)
Addysg Gorfforol (Cwrs Byr)	• Lleihau gofynion yr Asesiad Di-arholiad – un gweithgaredd yn lle dau (Uned 2)
Astudiaethau Crefyddol (gan gynnwys Cwrs Byr)	• Dewis o opsiynau ar gael ym mhob uned. Asesir dysgwyr ar dair o bedair thema ym mhob uned.

*Mae'r fersiynau heb eu haddasu o'n manylebau i'w gweld ar dudalennau'r pynciau ar ein gwefan yma

Pwnc	Crynodeb o'r addasiadau ar gyfer Ionawr 2022 a Haf 2022*
Bioleg neu Cemeg neu Ffiseg	• Tynnu asesiad (Uned 1) • Tynnu asesiad ymarferol (Uned 3)
Gwyddoniaeth (Dwyradd)	• Tynnu asesiadau (Unedau 1, 2 a 3) • Tynnu asesiad ymarferol (Uned 7)
Gwyddoniaeth Gymhwysol (Dwyradd)	• Tynnu asesiadau (Unedau 1 a 2) • Tynnu asesiad ymarferol (Uned 5)
Gwyddoniaeth Gymhwysol (Gradd Unigol)	• Tynnu asesiad (Uned 1) • Tynnu asesiad ymarferol (Uned 4)
Cymraeg Iaith	• Tynnu Llafaredd Tasg 2: Ymateb a Rhyngweithio (Trafodaeth grŵp) (Uned 1) • Dewis o opsiynau yn yr asesiadau ysgrifenedig (Uned 2 ac Uned 3)
Llenyddiaeth Gymraeg	• Mae dysgwyr yn sefyll naill ai Uned 1 neu Uned 2 (mae pob dysgwr yn sefyll Uned 3 ac Uned 4)
Cymraeg Ail Iaith	• Mae dysgwyr yn sefyll naill ai Uned 1 neu Uned 2 (mae pob dysgwr yn sefyll Uned 3 ac Uned 4)

*Mae'r fersiynau heb eu haddasu o'n manylebau i'w gweld ar dudalennau'r pynciau ar ein gwefan yma

Gwybodaeth Ychwanegol am addasiadau TGAU

Addaswyd y pynciau yn y categorïau canlynol mewn ffyrdd tebyg.

1. **Pynciau craidd** (Cymraeg Iaith, Mathemateg, Mathemateg-Rhifedd, Saesneg Iaith)
   Gan fod pynciau craidd yn orfodol, bydd yr addasiadau a gynigir yn y pynciau hyn yr un mor fuddiol i bob dysgwr. Mae'r sgiliau, y wybodaeth a'r ddealltwriaeth a enillwyd drwy astudio'r pynciau hyn yn hanfodol i allu symud ymlaen yn llwyddiannus i bob cwrs lefel 3, gan gynnwys UG a Safon Uwch, ac i gyflogaeth. Oherwydd hyn, mae'n hanfodol bod y cymwysterau hyn yn cynnal y manwl gywirdeb hwnnw sy'n gysylltiedig â'r TGAU. Cyfyngwyd felly ar yr addasiadau sydd wedi'u gwneud i'r cynnwys ac i'r asesiad. Serch hynny, bydd symleiddio cynnwys yr asesiad yn helpu dysgwyr ac yn cadw hygrededd y cymwysterau ar yr un pryd.

2. **Pynciau craidd** (Y Gwyddorau)
   Gan fod pynciau craidd yn orfodol, bydd yr addasiadau a gynigir ym mhynciau TGAU Y Gwyddorau yr un mor fuddiol i bob dysgwr. Cymwysterau mewn unedau yw'r cymwysterau gwyddoniaeth. Mae hyn yn golygu ei bod yn bosibl cofrestru am rai o'r unedau yn gynharach yn y cwrs. Ein cynnig ni, felly, yw bod dysgwyr sy'n cyfnewid yn 2022 yn sefyll dim ond yr unedau penodol sy'n cael eu sefyll ym mlwyddyn 11 fel arfer. Ni fyddent felly yn sefyll yr unedau y byddent yn eu sefyll ym mlwyddyn 10 fel arfer. Addasiad sy'n berthnasol i haf 2022 yw hwn, **nid** yw'n berthnasol i'r dysgwyr hynny sy'n cychwyn ar eu cyrsiau yn 2021, ac yn bwriadu cyfnewid yn 2023.

3. **Cynnig dewis o opsiynau ar lefel uned i rai pynciau TGAU** (Cymraeg Ail Iaith, Hanes, Llenyddiaeth Gymraeg, Llenyddiaeth Saesneg)
Cymwysterau mewn unedau yw'r cymwysterau hyn a gall dysgwyr sefyll unedau ar wahanol adegau yn ystod y cwrs, gyda phob un o'r dysgwyr yn sefyll rhai unedau ar y diwedd. Yn wahanol i gyfres y gwyddorau fodd bynnag, nid yw'r patrwm cofrestru yn gyson ar draws canolfannau. Os yw dysgwyr yn cyfnewid eu cymhwyster yn 2022 byddant yn cael dewis un uned (Cymraeg Ail Iaith, Llenyddiaeth Gymraeg a Llenyddiaeth Saesneg) neu ddwy uned (Hanes), o ddewis o unedau. Mae'n debygol y bydd eich canolfan yn dewis yr unedau y mae'n rhaid i chi eu hastudio, er mwyn gallu canolbwyntio eu dysgu ar yr unedau hyn. Bydd cynnwys ac asesiad yr uned yn aros yr un peth. Mae'r addasiad hwn yn berthnasol i Ionawr 2022 a haf 2022 ond **nid** yw'n berthnasol i'r dysgwyr hynny sy'n cychwyn ar eu cyrsiau yn 2021, ac yn bwriadu cyfnewid yn 2023.

4. **Symleiddio neu dynnu'r Asesiad Di-arholiad yn 2021** (Addysg Gorfforol, Almaeneg, Astudio'r Cyfryngau, Bwyd a Maeth, Celf a Dylunio, Cerddoriaeth, Cyfrifiadureg, Daearyddiaeth, Drama, Dylunio a Thechnoleg, Ffrangeg, Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant, Sbaeneg).

   Mae'r Asesiad Di-arholiad yn rhan sylfaenol o ddatblygiad y sgiliau sy'n angenrheidiol ar gyfer symud ymlaen yn y pynciau hyn. Oherwydd hynny, rydym wedi sicrhau bod pob un o'r pynciau sy'n cynnwys Asesiad Di-arholiad (heblaw am Cyfrifiadureg sy'n cynnwys ymgymryd â gwaith ymarferol i baratoi ar gyfer Uned 2) yn cadw rhai rhannau o'r Asesiad Di-arholiad. Ym mhob achos rydym wedi addasu fel y gall canolfannau hwyluso cyrsiau ymarferol mewn amgylchedd sy'n ddiogel ac yn dilyn y canllawiau ymbellhau cymdeithasol ar yr un pryd. Dim ond rhai newidiadau mân iawn y mae'n bosibl eu gwneud i rai o'r pynciau hyn ac maent hefyd yn cynnwys addasiadau i asesiadau drwy arholiad.

5. **Symleiddio cynnwys i'w asesu drwy arholiad yn 2021 (**Almaeneg, Astudiaethau Crefyddol, Astudio'r Cyfryngau, Busnes, Daearyddiaeth, Dylunio a Thechnoleg, Ffrangeg, Sbaeneg)

   Ar gyfer y cymwysterau hyn rydym wedi enwi rhywfaint o'r cynnwys fydd ddim yn cael ei asesu yn 2022. Ystyr hyn, mewn rhai cymwysterau, yw y bydd cwestiynau hefyd yn cael eu tynnu o'r asesiad neu'n cael eu gwneud yn gwestiynau dewisol.

6. **Tynnu uned** (TGCh (Gradd Unigol) ac Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant (Dwyradd))

   I gydnabod y ffaith y byddai dysgwyr fel arfer wedi sefyll unedau arholiad Cwrs Byr (TGCh) a Gradd Unigol (IGCGP) yn gynnar, rydym wedi tynnu uned 1 o bob un o'r cymwysterau hyn o'r asesiad yn 2022. Nid yw'r addasiad hwn yn berthnasol i'r cwrs byr (TGCh) na'r gradd unigol (IGCGP).

Atodiad B

Cymwysterau UG CBAC

Pwnc	Crynodeb o addasiadau ar gyfer 2022*
TGCh Gymhwysol	Nid oes bwriad i wneud unrhyw newidiadau i'r cymhwyster hwn.
Celf a Dylunio	Nid oes bwriad i wneud unrhyw newidiadau i'r cymhwyster hwn.
Bioleg / Cemeg / Ffiseg	Nid asesir cynnwys wedi'i enwi (gan gynnwys rhywfaint o'r gwaith ymarferol penodol) ar gyfer Uned 1 ac Uned 2
Busnes	Nid asesir cynnwys wedi'i enwi ar gyfer Uned 1 ac Uned 2
Cyfrifiadureg	Nid asesir cynnwys wedi'i enwi ar gyfer Uned 1
Dylunio a Thechnoleg	• Nid asesir cynnwys wedi'i enwi ar gyfer Uned 1 • Gall dysgwyr gwblhau model/brasfodel o'u dyluniad terfynol yn lle prototeip yn Uned 2
Drama a Theatr	• Yn Uned 1 maint lleiaf grŵp fydd un actor a bydd yr isafswm amser perfformio yn cael ei leihau. Bydd y gofynion lleiaf ar gyfer yr opsiwn dylunio hefyd yn cael eu lleihau. • Rhoi gwybod ymlaen llaw am rai o'r agweddau fydd yn cael eu hasesu yn yr arholiad Uned 2
Economeg	Nid asesir cynnwys wedi'i enwi ar gyfer Uned 1 ac Uned 2
Saesneg Iaith	Rhoi gwybod ymlaen llaw am rai o'r genres/testun/pwrpasau a fydd yn cael eu hasesu yn yr arholiadau Uned 1 ac Uned 2
Saesneg Iaith a Llenyddiaeth	Rhoi gwybod ymlaen llaw am rai o'r agweddau fydd yn cael hasesu yn yr arholiadau Uned 1 ac Uned 2: • lleihau nifer y cerddi i'w hastudio ar gyfer Uned 1, a • rhoi syniad o'r adran o'r testun y daw'r darn ohono ar gyfer Adran A Uned 2
Llenyddiaeth Saesneg	Rhoi gwybod ymlaen llaw pa ddarnau/cerddi fydd yn cael eu hasesu yn yr arholiadau Uned 1 ac Uned 2
Ffrangeg/Almaeneg/ Sbaeneg	Tynnu Tasg 1 (cerdyn dadl) yn yr Uned 1 Siarad (Asesiad Di-arholiad)
Daearyddiaeth	• Nid asesir cynnwys wedi'i enwi ar gyfer Uned 2 • Gofynnir i ddysgwyr ymgymryd ag o leiaf un profiad gwaith maes wrth baratoi ar gyfer yr arholiad
Llywodraeth a Gwleidyddiaeth	Nid asesir cynnwys wedi'i enwi ar gyfer Uned 1 ac Uned 2
Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant	Nid asesir Tasg 2, rhan (dd) yr Asesiad Di-arholiad
Hanes	Nid asesir un o'r cysyniadau/safbwyntiau wedi'u henwi ym mhob un o opsiynau astudiaeth achos Uned 1
TGCh	Bydd Adran B yn cael ei thynnu o'r arholiad Uned 1
Y Gyfraith	Nid asesir cynnwys wedi'i enwi ar gyfer Uned 1 ac Uned 2

Mae'r fersiynau heb eu haddasu o'n manylebau i'w gweld ar dudalennau'r pynciau ar ein gwefan yma

Pwnc	Crynodeb o addasiadau ar gyfer 2022*
Mathemateg a Mathemateg Bellach	• Nid asesir cynnwys wedi'i enwi ar gyfer Mathemateg Uned 1 ac Uned 2 • Nid asesir cynnwys wedi'i enwi ar gyfer Mathemateg Bellach Uned 1, Uned 2 ac Uned 3.
Astudio'r Cyfryngau	• Nid asesir cynnwys wedi'i enwi ar gyfer Uned 1 • Nid asesir cynllunio a bydd gofynion yr holl opsiynau cynhyrchu yn Asesiad Di-arholiad Uned 2 yn cael eu lleihau • Derbynnir cynyrchiadau wedi'u cwblhau'n rhannol ar gyfer Asesiad Di-arholiad Uned 2
Cerddoriaeth	• Bydd yr amser perfformio yn cael ei leihau yn Uned 1 • Dim ond un cyfansoddiad fydd ei angen yn Uned 2
Addysg Gorfforol	Bydd y gofyniad i hyfforddi/dyfarnu yn cael ei dynnu o Uned 2 (Asesiad Di-arholiad)
Seicoleg	Nid asesir Adran A (Dadleuon Cyfoes) yn yr arholiad Uned 2
Astudiaethau Crefyddol	Nid asesir cynnwys wedi'i enwi (is-themâu) yn Adran A yr arholiad Uned 2
Cymdeithaseg	Rhoi gwybod ymlaen llaw am rai o'r agweddau fydd yn cael eu hasesu yn yr arholiad Uned 1
Cymraeg Iaith	• Bydd dysgwyr yn astudio naill ai'r ffilm neu'r ddrama ar gyfer yr arholiad Llafar yn Uned 1 • Byddwn yn darparu copi o'r cerddi yn Adran B arholiad Uned 3
Cymraeg Ail Iaith	• Tynnu un darn ysgrifenedig o waith o Asesiad Di-arholiad Uned 2 • Yn Uned 3 bydd nifer y cerddi i'w hastudio yn mynd i lawr o bump i bedwar.

*Mae'r fersiynau heb eu haddasu o'n manylebau i'w gweld ar dudalennau'r pynciau ar ein gwefan yma

Atodiad C

Cymwysterau Safon Uwch CBAC

Pwnc	Crynodeb o addasiadau ar gyfer 2022*
TGCh Gymhwysol	Yn Uned 3, bydd yr ymdriniaeth â'r senario gychwynnol yn digwydd fel gweithgaredd dosbarth cyfan 'dan arweiniad yr athro' yn hytrach na chael ei gwblhau gan nifer o grwpiau bach.
Celf a Dylunio	Nid asesir Uned 3 (aseiniad wedi'i osod yn allanol)
Bioleg/Cemeg/ Ffiseg	• Ni fydd cynnwys UG nad yw'n cael ei ddatblygu nac yn ofynnol ar gyfer Unedau 3 a 4 yn cael ei asesu yn 2022 • Bioleg - Nid asesir cynnwys wedi'i enwi ar gyfer Uned 4 • Cemeg - Nid asesir cynnwys wedi'i enwi ar gyfer Uned 3 ac Uned 4 • Ffiseg - Nid asesir cynnwys wedi'i enwi ar gyfer Uned 4
Busnes	Nid asesir cynnwys wedi'i enwi ar gyfer Uned 3 ac Uned 4
Cyfrifiadureg	• Nid asesir cynnwys wedi'i enwi ar gyfer Uned 3 ac Uned 4 • Yn Uned 5 byddwn yn tynnu'r gofyniad i ddysgwyr gwblhau prototeip, mireinio'r dyluniad ar ôl y prototeip a phrofi datblygiadol
Dylunio a Thechnoleg	• Nid asesir cynnwys wedi'i enwi ar gyfer Uned 3 • Gall dysgwyr gwblhau model/brasfodel o'u dyluniad terfynol yn lle prototeip yn Uned 4
Drama a Theatr	• Yn Uned 3 maint lleiaf grŵp fydd un actor a bydd yr isafswm amser perfformio yn cael ei leihau. Bydd y gofynion lleiaf ar gyfer yr opsiwn dylunio hefyd yn cael eu lleihau. • Rhoi gwybod ymlaen llaw am rai o'r agweddau fydd yn cael eu hasesu yn yr arholiad Uned 4
Economeg	Nid asesir cynnwys wedi'i enwi ar gyfer Uned 3 ac Uned 4
Saesneg Iaith	Rhoi gwybod ymlaen llaw am rai o'r genres/testun/pwrpasau fydd yn cael eu hasesu yn yr arholiadau Uned 3 ac Uned 4
Saesneg Iaith a Llenyddiaeth	Rhoi gwybod ymlaen llaw am rai o'r agweddau fydd yn cael hasesu yn yr arholiadau Uned 3 ac Uned 4: • rhoi syniad o'r adran o'r testun y daw'r darnau ohono yn Uned 3 • rhoi gwybod ymlaen llaw beth fydd y testun heb ei weld ar gyfer Iaith Lafar yn Adran A Uned 4
Llenyddiaeth Saesneg	Rhoi gwybod ymlaen llaw pa ddarnau/cerddi fydd yn cael eu hasesu yn yr arholiadau Uned 3 ac Uned 4
Ffrangeg/Almaeneg/ Sbaeneg	• Yn Uned 3 Siarad (Asesiad Di-arholiad), bydd amseriad un o'r tasgau yn cael ei leihau • Nid asesir un is-thema wedi'i henwi yn yr arholiad Uned 4
Daearyddiaeth	Bydd Adran B (themâu cyfoes mewn daearyddiaeth) yn yr arholiad Uned 4 yn ymdrin ag un thema ddewisol yn unig
Llywodraeth a Gwleidyddiaeth	Nid asesir cynnwys wedi'i enwi ar gyfer Uned 3 ac Uned 4

*Mae'r fersiynau heb eu haddasu o'n manylebau i'w gweld ar dudalennau'r pynciau ar ein gwefan yma

Pwnc	Crynodeb o addasiadau ar gyfer 2022*
Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant	• Yn Asesiad Di-arholiad Uned 4 (llwybr gofal plant) nid asesir Tasg 1, rhan (b)(ii) a (d)(i) • Yn Asesiad Di-arholiad Uned 6 (llwybr iechyd a gofal cymdeithasol) nid asesir Tasg 1, rhan (b)(ii) a (d)(i)
Hanes	• Yn yr arholiad Uned 3, nid asesir cwestiynau â chyfnod amser byr
TGCh	• Nid asesir cynnwys wedi'i enwi ar gyfer Uned 3 • Yn Uned 4 byddwn yn tynnu'r gofyniad i ddysgwyr gwblhau'r cam gwerthuso.
Y Gyfraith	• Nid asesir cynnwys wedi'i enwi ar gyfer Uned 3 ac Uned 4.
Mathemateg a Mathemateg Bellach	• Nid asesir cynnwys wedi'i enwi ar gyfer Mathemateg Uned 3 ac Uned 4 • Nid asesir cynnwys wedi'i enwi ar gyfer Mathemateg Bellach Uned 4, Uned 5 ac Uned 6
Astudio'r Cyfryngau	• Yn Uned 3 bydd nifer y cynhyrchion gosod i'w hastudio ar gyfer pob adran yn mynd i lawr o dri i ddau • Bydd dysgwyr yn creu un cynnyrch y cyfryngau yn unig yn Asesiad Di-arholiad Uned 4 a bydd y gofynion (amser/tudalennau/lluniau) yn cael eu lleihau • Derbynnir cynyrchiadau wedi'u cwblhau'n rhannol ar gyfer Asesiad Di-arholiad Uned 4
Cerddoriaeth	• Bydd yr amser perfformio yn cael ei leihau yn Uned 4 • Dim ond un cyfansoddiad fydd ei angen yn Uned 5 (opsiwn A) • Dim ond dau gyfansoddiad fydd eu hangen yn Uned 5 (opsiwn B) • Tynnir un o'r ddau waith gosod atodol yn Uned 6 Maes Astudio Dd Llinynnau 1 a 2
Addysg Gorfforol	Yn Asesiad Di-arholiad Uned 4 asesir dwy adran gyntaf y Project Ymchwil Ymchwiliol yn unig: • *Cwblhau dadansoddiad cychwynnol o berfformiad personol gan nodi ymchwil priodol i helpu i wella perfformiad* • *Gwerthuso ymchwil, gan gynnwys data, er mwyn gwneud argymhellion a chynllun ar gyfer gwella perfformiad.*
Seicoleg	Yn Adran A yr arholiad Uned 3, bydd gofyn i ddysgwyr ateb dau gwestiwn yn lle tri.
Astudiaethau Crefyddol	• Nid asesir cynnwys wedi'i enwi (Thema 1) yn yr arholiad Uned 4 • Nid asesir cynnwys wedi'i enwi (Thema 4) yn yr arholiad Uned 5
Cymdeithaseg	Rhoi gwybod ymlaen llaw am rai o'r agweddau fydd yn cael hasesu yn yr arholiad Uned 3
Cymraeg Iaith	• Yn Uned 5 bydd nifer y cerddi i'w hastudio yn mynd i lawr o saith i chwech • Yn Uned 6 bydd nifer y ffurfiau ysgrifennu i'w hastudio yn mynd i lawr o saith i bump
Cymraeg Ail Iaith	• Yn Uned 5 bydd cyfnod yr astudiaeth o'r Gymraeg yn y gymdeithas yn cael ei leihau o ganol yr 20fed ganrif hyd heddiw i'r 1980au hyd heddiw • Yn Uned 6 bydd nifer y straeon byrion i'w hastudio yn mynd i lawr o bedwar i dri.

*Mae'r fersiynau heb eu haddasu o'n manylebau i'w gweld ar dudalennau'r pynciau ar ein gwefan yma